

STORÏAU O'R LLYDAWEG

Golygydd **RITA WILLIAMS**

STORÏAU TRAMOR VIII



STORÏAU O'R LLYDAWEG

Un o'r datblygiadau mwyaf cyffrous yn y gwledydd Celtaidd yn ystod y blynyddoedd diwethaf hyn fu'r diddordeb cynyddol yng Nghymru mewn Llydaweg, a diddordeb cyfatebol yn Llydaw yn y Gymraeg. Maes lle y mae llenyddiaeth Lydaweg wedi rhagori ydyw'r stori fer, ac yn y detholiad hwn ceir arolwg ardderchog o waith amryw o feistri'r ffurf yn y Llydaweg — rhai megis Abeozen, Roparz Hemon, Ronan Huon a Jakez Riou. Oherwydd amgylchiadau cyhoeddi yn Llydaw dichon na cheir hyd yn oed yn yr iaith wreiddiol yr un detholiad mor gytbwys na chynhwysfawr o'r stori fer ag a geir yn y gyfrol hon. Ac felly, gan fod y llyfr hwn yn cynnwys rhagymadrodd gwerthfawr yn bwrw golwg dros ddatblygiad y ffurf hon yn Llydaw ar ôl 1925 ynghyd â nodiadau cryno ond defnyddiol ar yr awduron, y mae ei gyhoeddi yn ddigwyddiad o bwys mawr iawn yn y byd Celtaidd.

HUON, RONAN 1922—

Ganwyd yn Sant-Omer, ond Llydawyr o Plourin-Montroulez (Leon), oedd ei rieni. Dychwelodd y teulu i orllewin Llydaw, i Lanuon ym 1924, ac yn ysgol Sant-Jozeb y cafodd ei addysg gynnar, cyn mynd i brifysgol Roazhon i astudio Saesneg a mynychu darlithiau Astudiaethau Celtaidd. Bu am flwyddyn yn athro cynorthwyol yn Abertawe a'i deimladau wrth ffarwelio â'r dref honno a geir yn 'Diwrnod Gwlyb' yn y gyfrol hon. Meistrolodd y Gymraeg yno, felly nid rhyfedd mai fe arferai ddysgu Llydaweg i'r Cymry a fynychai'r gwersyll Celtaidd, *Kamp Etrekeltiek ar Vrezhonegerien* yr oedd yn un o'i sylfaenwyr.

Cyfieithodd 'Twmi' Dic Tryfan, rhai o storïau'r Dr. Kate Roberts (y mae ei dylanwad yn sicr ar ei arddull), a cherddi gan Lady Gregory ac R. M. Rilke a'u cyhoeddi yn y cylchgrawn *Al Liamm Tir-na-Nog* y bu'n ei olygu ers 1949 ynghyd â bod yn athro Saesneg yn ysgol uwchradd Kerichen, Brest.

Cyhoeddodd gyfrol o gerddi *Evidon va-unan* (1954) a chyfrol o storïau byrion *An Irin Glas* (1966). "Un o sgrifenwyr gorau ein cyfnod," yn ôl y Dr. Per Denez, "dengys ei weithiau dynerwch a grym yr un pryd."

DIWRNOD GWLYB

Ronan Huon
(cyf. Rita Williams)

Llifai'r glaw ar hyd wyneb melyn Banc Lloyd's; 'r oedd perch-nogion y siopau sgidiau wedi casglu'u nwyddau a hongiai y tu allan, ac edrychai pen Chopin ar y poster yn ffenest siop Morgan & Higgs yn dristach nag erioed. Cyhoeddai fod cyngerdd yn y Brangwyn y noson honno. Gwasgodd Yann ei drwyn yn erbyn y ffenest, yna dychmygodd sut yr edrychai o'r tu fewn â'i drwyn mawr yn fflat ar y ffenest wlyb, ac ymsythodd. Câi ei wefreiddio'n rhyfeddol gan nodau cwta a llon 'The Rhapsody in Blue' yn codi, yn codi, yn dringo (canai'r hwter draw yng ngyfeiriad y dociau tywyll) ac unwaith eto dechreuodd ei drwyn fynd lan a lawr i guriadau rhapsodi Gershwin. Ar ôl cael cip ar recordiau a llyfrau'r siop gerddoriaeth fe ailddechreuodd gerddetan ar hyd y siopau. Mwydai'r glaw diddiwedd y dre fawr a'i sgidiau pŵl yntau er y bore.

'D oedd hi ddim yn gas ganddo gerdded yn y glaw fel yna, parai'r dŵr yn disgyn o hyd mor gyson o'r nef iddo synfyfrio fwy nag unrhyw fath o dywydd, i ystyried ac i hel meddyliau, yn wir 'r oedd yn sbardun i'w feddwl. Daethai i groesffordd. Arhosodd ar ymyl y pafin, ei ddwylo wedi'u gwrthio'n ddwfn i bocedi ei got law, a diferyn o ddŵr yn dawnsio ar flaen ei drwyn. Chwythodd y plisman ei bib, safodd y ceir yn stond a chroesodd yntau yr hewl. Aeth heibio i sinema 'r *Albert Hall*, ffurfiai cotiau gwyrdd ac ambareli gwt yn y glaw, yn dawel fach, fel y glaw ei hunan.

Am eiliad, 'r oedd arno awydd sleifio i'r gwt; byddai bob amser wrth fodd ei galon yn sefyllan ymysg pobl ddierth iddo, a siaradai iaith nad oedd iddi'r un nodau â'i un e. Pan arhosai felly gallai ddyfeisio digwyddiadau rhyfeddol, lluniai fyd cyfan â'r hyn a ddwedai'r bobl o'i gwmpas—eu bywyd galwedigaethol yn gwisgo eu dillad parch ar nos Sadwrn, merched swyddfa, ysgrifenyddesau yn adrodd hanesion yr wythnos yn y swyddfa, a'u helyntion caru y naill wrth y llall.

Byddai'r cariadon yn niferus, yn enwedig ar nos Sadwrn, 'r oedd pawb yn falch fod wythnos wedi dod i ben ac 'r oedd yntau'n falch gyda nhw.

A dyma fe'n llawen ac yn drist ar yr un pryd heddiw. Yn drist am ei fod ar fin ffarwelio â hynny i gyd, a'u troi yn atgofion, yn drist o

ffarwelio â nhw er y teimlai fod y cof am bethau yn hyfrytach na'r pethau eu hunain fynychaf. Yn nyfnderoedd eithaf ei atgofion, fe arhosai gwraig y llety, efallai, lodes dew, hapus, a fuasai ar y llwyfan slawer dydd, ac a'i difyrrai ei hunan drwy brynu gorchuddion lampau hyd nes na wyddai ble i'w rhoi; gwraig y llety, a fyddai'n cau llenni'r ffenest i dynnu'r tân lan y simne gan esgus bod yr haul yn ei atal rhag cydio.

Nawr âi heibio i ddrws tafarn, un o'r tafarnau hynny ym Mhrydain sydd â golwg mor alarus arnyn nhw. Pan oedd o flaen y drws cilagored amgylchynai awel gynnes y mwg a'r cwrw ef a theimlai'n braf i fod allan yn y glaw.

Canai cloch niwl yn y bae. Rhaid nad oedd neb ar y traeth acw yn y gwaelod bellach, a rhodfa Ystum Llwynarth a'i neuadd ddawns ar y pen yn wag, ei phaent wedi'i sgubo a'i grafu a'i gribo gan awel y môr a'r prysgwydd. Ar hyd y lan disgleiriai'r brwyn gan ysgwyd eu penwisgoedd gwlyb ar y twyni yn ymyl y maes golff. 'R oedd trwyn y penrhyn, lle y cusanodd y Ffrances fach fodlon yn ei hyd ar y traeth, wedi caei ei sgubo o bob atgof am y prynhawn twym hwnnw ac am brynhawn eu serch hwythau.

'R oedd Gwesty'r *Caswell* lle y cawsai de un diwrnod yn y gaeaf gyda Maria a Suzanne, yn wag; 'r oedd y llwybr ar hyd glan y môr yn arwach fyth na'r diwrnod hwnnw y cawsent eu dal gan gawod ac y bu'n rhaid iddynt redeg i'r gwesty, a gwallt Maria yn glynu fel gwymon ar ei bochau oedd yn rhychog bellach gan fod yr haenen bowdwr a roddwyd arnynt yn y bore wedi cael ei olchi bant.

'Tintagel' gan Bax a ddarllenai ar y record. Bob tro y dychwelai o'i swyddfa fe oedai o flaen yr un siopau, siopau llyfrau a cherddoriaeth yn bennaf, a siopau celfi weithiau, er eu bod yn ddiolwg yn ei farn e. 'R oedd yn hapus hefyd o feddwl am y te twym, y darten afalau, a'r tân yn y grat a fyddai yn ei ddisgwyl ar ddiwedd ei daith oer a gwlyb ac yntau eisoes yn damaid o gyw *bourgeois* bach.

Ond heddiw 'r oedd yn wahanol, ei bererindod oedd hi, ac fe gydiai popeth a hoffai gynt yn dynn yn rhywbeth yn ei ganol a'i wasgu, ei galon mae'n siŵr, ac 'roedd yn drist, fel y tywydd, fel wyneb tŷ Morgan & Higgs yn wylo, fel yr awyr lwyd. Daliai ceir, ambareli a chotiau glaw gloyw i fynd heibio, eu hwynebau yn niwlog ac yn aneglur iddo. Saith o'r gloch oedd hi wrth y cloc yn y siop recordiau, 'd oedd dim neb ynddi, a'r diwrnod gwaith wedi dod i ben, dim ond y cloc a gyffrai.

Cymerodd ben ei ffordd unwaith eto, wrth ei bwysau, ei sgidiau'n wlyb sopen. 'R oedd yr hwyrnos olaf yn disgyn yn araf, araf fel y glaw, yn araf, araf fel y dorf o bobl yn symud i flaen yr *Albert Hall*. Aeth i mewn i gaffe, eisteddodd mewn cornel a gofyn am ddysglaid o de a llaeth, fel pawb arall. 'R oedd wynebau pawb yn wyrddlas yn y golau neon, fel yng ngolau Hewl y Mwmbwls wrth fynd ma's o Barc Singleton. 'R oedd gwefusau'r merched yn borffor, yn erchyll, 'r oen nhw i gyd yn debyg i ysbrydion. Gafaelodd yn ei ddysglaid o de i yfed, 'r oedd ei ddwylo yn wyrddlas, a'i ewinedd yn rhyfedd. Cododd ei ben, 'r oedd rhywun yn dod i mewn. 'R oedd y drws yn gilagored ar ddyfnder y nos: canai hwter ym Mac Abertawe, ymhellach allan i'r môr fe ddawnsiai cloch bwi ac yma sugnai'r glaw y tarmacadam.

Arhosai yn ei sefyll wrth ddrws y siop, ei het yn ei law fel arfer. Dangosai gwraig y siop groesau eboni i foneddiges, a rhai arian a rhai aur, gan eu hanwesu yn gariadus, "It is of the best quality, madam, and hall-marked".

'R oedd y peth oedd yn het ar ben y cwsmer wedi mynd â sylw'r trafaelwr am getyn bach. Edrychai'r foneddiges ar y croesau, deuai'n nes, â'i ymhellach, cymerodd un a mynd at y drws i edrych arni yng ngolau ddydd. Dododd y llanc ei fag lledr ar gadair. 'R oedd ei fraich wedi blino ac 'r oedd argoel para ar bethau. A dweud y gwir, 'chymerei e fawr o sylw tra'n disgwyl, gan mor gyfarwydd oedd.

Ar adegau felly y broblem oedd cael rhywbeth i fynd â'i feddwl, i lanw'i amser segur. Drwy ffenest y siop gwelai'r porthladd rhyfel yn ymestyn, ynghyd â'r llongau. Gyda'r llongau dechreuai ei feddwl deithio, bob amser i wledydd cynnes y Môr Tawel, ymysg y palm-wydd, ynysodd o liwiau llachar, llefydd nad oedd wedi'u gweld ond yn y sinema, neu wedi darllen amdanynt mewn llyfrau.

Troes yn sydyn. 'R oedd gwraig y siop yn ei gyfarch â'i llais bach main.

"O, Mr. Branelleg, esgusodwch fi. 'Ddylwn i ddim fod wedi'ch cadw i aros. 'D yw'r llyfr 'r oeddech chi wedi'i archebu ddim wedi cyrraedd. Dewch 'n ôl yr wythnos nesa', bydd yn rhaid i'ch cwsmer aros am dipyn bach eto."

A gwenai, ei phen dipyn ar sgewc wrth ei droi o'r neilltu.

Aeth allan. Oeddod ar y trothwy i wisgo'i het, ond 'r oedd y glaw wedi peidio, a disgleiriai'r hewl yn yr haul. 'R oedd ganddo ddwy siop i'w gwneud eto. Mynd i gynnig ei nwyddau yn yr un newydd ei hagog yn Stryd y Castell a chasglu arian yn y llall. Yna meddyliodd am ei fam gartre, am ei fywyd gyda hi a hwythau ill dau yn hen, am ei fywyd yn Havr-Nevez pan âi o dŷ i dŷ i geisio gwerthu peiriannau gwnïo, a theipiaduron yn ddiweddarach ac fel y daethai, yn y diwedd, i fyw yn y dref hon, ei dref enedigol, a garai gymaint, a garasai gymaint. Ond 'r oedd y bobl wedi newid, 'r oedd ei bobl e wedi newid, nid ei dai e oedd ei dai mwyach.

'R oedd e wedi cyrraedd gardd. Na, 'd oedd yr ardd ddim fel ag yr oedd slawer dydd, ond 'd oedd y pelydrau haul ddim yn ddiolwg yn dawnsio o dan y pisgwydd ar y borfa ac ar y llwybrau. 'R oedd y meinciau eisoes yn sych a'r bobl i gyd allan. Ar ambell ddeilen disgleiriai diferion ola'r glaw.

Rholiodd pêl at ei draed, a phlentyn yn rhedeg ar ei hôl. Ataliodd Per Branelleg hi â'i droed a dyma'r plentyn yn dechrau llefain heb fentro nesu i'w hôl, fel pe bai wedi'i ddychryn gan dristwch llygaid glas-llin y dieithryn. Gwenodd, a phellhau yn ei got law ag ôl traul yn ei phlygion, a'i fag lledr yn ei law, a rhedodd y plentyn ar ôl ei bêl.

Aeth 'mewn i siop faco yn ymyl i brynu papur newydd, a chan gael ei ddenu, dychwelodd i'w ddarllen ar un o'r meinciau yn yr ardd fach. "*'R oedd cwch o Algeria newydd gyrraedd y porthladd â llwyth o win. 'R oedd sôn am godi ffatri i ddefnyddio olew'r cychod. 'R oedd bachgen un ar bymtheg oed wedi gwneud diwedd â'i human wrth neidio oddi ar bont Kërber. 'R oedd y Jeanne d'Arc wedi dychwelyd o Efrog Newydd ar ôl bod o gumpas y byd â chriw o forwyr ifainc.*"

Cofiodd iddo weld y llong yn y Penfeld y diwrnod cynt. Pan oedd yn blentyn âi gyda'i fam i edrych ar y llongau pan ddychwelent o siwrnai ac fe fyddai 'no fiwsig a saethu ergydion canon. Byddai'r morwyr yn ymgasglu ynghyd ar y bont a haid o bobl yn gweiddi ar ragfuriau'r gaer.

Y pelydrau haul yna . . . fe ddawnsient nawr ar ei bapur. Twyment ei gefn, yn fendith. 'Wna llygedyn o haul ddim drwg. Clywodd lais y plentyn yn galw ar ei fam, 'r oedd hwnt yn y pen arall yn dal i redeg ar ôl ei bêl. Pwysodd ei gefn yn ôl ar y ffwrwm, ei bapur newydd wedi llithro ar ei liniau. Dyna ffres a chymen oedd y tamaid bach gardd yma a'i choed poplys yr Eidal, y borfa, y blagur ifainc mor dawel a thyner, yn wahanol i'r bobl. Edrychodd ar y papur ac ar lun y Jeanne yn y Penfeld ac ar y borfa eto "mor wahanol i'r bobl." Y tu ôl i'r coed fe welai yn y pellter, a'u brig ychydig yn niwlog, dai uchel Keliverzan ym mhen arall y bont. Mae'n siŵr taw oddi yno 'r oedd y bachgen ysgol wedi neidio. Ac unwaith eto cofiodd fod arno eisiau mynd i'r siopau yna ac aeth yr heulwen i gyd o'i galon.

I ba un o'r siopau yr âi gynta? 'D oedd arno ddim tamaid o awydd mynd i un ohonynt. Pam ddiawl y dewisodd y swydd yma? Pam nad oedd wedi chwilio am waith arall? Un waith dywedodd "fory", un waith "y flwyddyn nesa" ac yna aethai yn ei flaen heb hyd yn oed

feddwl rhagor fod modd gwneud rhywbeth arall. Pan oedd yn ifanc gallai ddal i fynd, 'r oedd ganddo'r galon a'r nerth i ddioddef y siomedigaethau. Nawr parai'r gwrthod a'r troi naill ochr loes iddo. Trafferthu'r mwyafrif a wnâi, 'r oedd ganddyn nhw bob math o bopeth . . . 'd oedd dim gwerth ar y pethau yna . . . 'r oedd yn amser gwael i alw . . .

A bant ag e i siop arall, gofynnai a oedd arnyn nhw eisiau'r peth hyn a'r peth arall ac fe atebid unwaith eto, "mae gennym ni ddigon am y tro, dewch 'n ôl ymhén mis neu ddau"; dymunai ddydd da a bant ag e unwaith eto i ddechrau ar yr un perfformans mewn siop arall.

Cododd yn hwyrfrydig, edrychodd ar y fainc lle bu'n eistedd a lle 'r oedd y dafnau haul yn dal i ddawnsio'n galonnog. Chwarter awr o wacen oedd i dŷ Gariou i grynhoi'r arian 'r oedd arnyn nhw iddo, a gweld a oedd pethau eraill wedi'u gwerthu. Galwasai eisoes ond 'd oedd y feistres ddim yno. Golygai bunnoedd ar bunnoedd iddo fe siwt. Fe brynai . . . Beth a brynai i'w fam? 'R oedd hi'n hoff o fadarch. Fe brynai fadarch ac fe wnâi omlet iddi. Fe barai'r madarch iddi feddwl am ei phlentynod ac wrth eu bwyta fe adroddai am y ganfed waith y siwrneion a wnâi gyda'i thad i Koad ar C'hrannoù i'w casglu.

Aeth un o'r morynion ifainc i'r stafell fach ym mhen draw'r siop. Clywyd sibwrdd a dychwelodd y forwyn. 'D oedd dim amser gan y foneddiges ar y pryd, 'r oedd gyda'r cyfrifydd . . . pe bai'n dod 'n ôl ymhén tri chwarter awr neu hanner awr.

Aeth allan o'r siop, ac yn lle mynd yn ei flaen ar unwaith, trôdd i'r chwith gan esgus edrych ar y llyfrau a'r teganau a gâi eu harddangos. Gwelai i mewn yn burion; 'r oedd y ddwy forwyn fach yn siarad ac yn chwerthin. 'R oen nhw'n siarad amdano fe ac yn cael sbort am ei ben. Ymbellhaodd. 'R oen nhw yn ei wawdio, 'r oedd yn siŵr o hynny. Crychodd ei dalcen.

Penderfynodd beidio â galw'n ôl tan ddiwedd y dydd, felly y byddai siwraf. 'D oedd dim dwywaith na fyddai dim wedi'i werthu ac yr âi i ffwrdd gan ymesgusodi fel arfer. Fe wenai'r ferch arno, ac yna ei wawdio eto, "y truan bach, 'd yw e ddim yn gallu gwneud ei waith bellach, o'r braidd y beiddia gynnig yr hyn sy ganddo i'w werthu a pham gwerthu pethau nad oes arnyn nhw werth, pethau nad oes mo'u hangen ar bobl yr adeg 'ma?"

Croesodd yr ardd unwaith eto. 'R oedd yn oerach. 'D oedd pelydrau'r haul ddim yn britho'r llwybrau nawr. 'R oedd y plant a'u mamau wedi mynd adre.

Fel llawer un arall gallasai ymroi i yfed, fel Perig Menez, er eng-hraifft, ei deiliwr o Poullig al Lor, a fuasai gydag e yn ysgol Lesneven. Efallai y rhoddai'r ddiod nerth yn ôl ynddo. Fe gawsai ei atgyfnerthu lawer i dro slawer dydd gan wydraid. Yna fe wnâi ei waith yn llawen, âi o'r naill dŷ i'r llall yn gwbwl ddiofal, yn llawn hyder a ffydd ynddo'i hun a 'ddwedai mo'r bobl wrtho am ddychwelyd ymhén hanner awr. Ond nawr 'r oedd yn hen, yn bump a thrigain gyda gŵyl Mihangel, nawr fe fyddai'n sâl, yn sâl fel ci ar ôl yfed; ac yna 'roedd ei fam.

"Delwi, Per Branelleg?" meddai llais yn ei ymyl. "A sut mae'r hwyl 'te?"

"Gweddol fach," meddai wrth ei ffrind, "gwell nag yn y gaea'."

"Wyt ti wedi bod yn sâl? 'D wy' i ddim wedi dy weld di ers cety'n."

"O na, nid fi. 'Mam. Mae hen bobol yn debyg i blant, wyddost ti, maen nhw mor eiddil fel y bydd perygl iddyn nhw bob amser i gael rhyw salwch neu'i gilydd."

'R oedd yn ddoniol ei glywed yn dweud, "hen bobol," fel pe na buasai yntau yn hen yn bum mlwydd a thrigain, ei wedd flinedig a chrin gan rychau poen neu ofid yn hytrach na henaint, fel ei bod yn anodd dychmygu bod ganddo fam yn ei ddisgwyl, gartre, mewn cadair freichiau yn ymyl y ffenest a wynebai'r culfor.

"Rhaid i ti ddod acw rywbyrd. Ond bydd 'Mam, wyddost ti, yr oedran hyn yn cael ei chynhyrfu gan y peth lleiaf. 'D wy' i ddim am achosi bribsyn o anesmwythyd iddi."

Ar ôl ffarwelio â'i ffrind dechreuodd feddwl am y siop unwaith eto. 'R oedd yn bryd mynd, 'r oedd yn chwech o'r gloch. Synnodd o sylweddoli nad oedd ar yr hewl iawn. Cymerasai'r ffordd adre yn ddarwybod iddo. Gwelodd eto ben y forwyn "dod 'n ôl ymhén hanner awr neu dri chwarter awr, y truan bach nad yw hyd yn oed yn beiddio cynnig . . ." Ceisiodd droi yn ei ôl. Na, 'allai fe ddim. 'Allai fe ddim mynd yno, 'd oedd dim i'w wneud. Âi e ddim mwy, ddim byth.

'R oedd ei fam yn cysgu yn y gegin, a'i phen ar y ford. Yno y treulien nhw Suliau'r gaea' i arbed glo, yn y gegin dywyll a wynebai gefnau'r tai, ar lafnau o dir wedi'u hamgylchynu â welydd o friciau sment. Ar y pryd 'r oen nhw'n llawn dilladach yn sychu, llwythi glo, ac annibendod o bob math.

Croesodd y gegin ar flaenau ei draed. Aeth i'w stafell i sgrifennu gair a ddododd mewn amlen ar ganol y ford; rhoes yr arian oedd yn ei

bocedi mewn amlen fwy. Caeodd y drws yn ofalus. Ar waelod y grisiau gwelodd y gofalydd :

“Ych chi wedi anghofio rhywbeth, Mr. Branelleg ? Fe ddaeth dyn i chwilio amdano chi ar ôl cinio. Dwedais wrtho nad oedd yn werth trafferthu dringo, fel y dwetsoch chi wrthyf, oblegid bod eich mam . . .”

Aeth diwedd y frawddeg ar goll iddo. Fel y cyrhaeddai'r stryd clywodd hwteri'r ffatri arfau yn agos, agos. 'R oedd y diwrnod gwaith ar ben. Rhaid brysio cyn bod gormod o bobl. Fe fyddai'r strydoedd yn llawn gweithwyr yn y man, yn mynd ar frys tua'r orsaf, eu bagiau lliain yn hongian wrth eu hysgwydd.

Yr ochr arall, 'r oedd llongau'r porthladd rhyfel yn y niwlen, a'r morglawdd a'r tai o gwmpas yn llwyd fel y môr. 'R oedd cwch coch yn y doc sych fel smotyn llachar. Drwy ffenest y trydydd llawr gwnâi merch arwydd ar forwr yn ei ddillad gwaith glas golau, ar fwrdd un o'r llongau rhyfel bach a oedd yn rhes lawr ar ochr y cei.

Meddylodd am wraig y siop na châi mo'i weld yn dod ac a fyddai'n falch. Yna meddylodd na wnâi'r bribsyn lleiaf o wahaniaeth ac na fyddai'n cofio amdano hyd yn oed. Ac aeth yn dristach fyth.

Cymerodd ffordd Kerinou a arweiniai at y bont . . . Cerddai nawr gan edrych yn syth o'i flaen, yn debyg i ugain mlynedd yn ôl, ym Mharis, ar ôl clywed bod y rhyfel wedi'i chyhoeddi a'i bod yn rhaid cau'r siop 'r oedd newydd ei sefydlu wedi tair blynedd ar ddeg o wasanaethu pobl eraill. Ac ar ganol popeth fe sgubodd y cwblw o'i feddwl. 'D oedd e ddim yn mynd i oddef rhagor. Brasgamai yn ei flaen heb weld neb.

Bellach 'd oedd e'n meddwl am ddim.

Acw, yr ochr draw i'r bont, yn Kêrber, disgleiriai pelydrau yr haul coch ar ffenestri tai uchel Keliverzan.

GWRAIG FACH FITW . . .

Ronan Huon
(cyf. Rita Williams)

Gwasgodd Goulven y sbardun yn rhy hwyr. 'R oedd y tyle yn fwy serth nag a dybiasai. Newidiodd lawr i'r trydydd. Ar y tro chwaraeodd ei oleuadau a lewyrchodd ar wydrau bychain y polion sment yn ymylu'r rowndyn.

Nawr 'r oedd ar y ffordd syth a 'd oedd arno ddim angen goleuadau eto. Goleuodd y rhai bach ochr yn unig. Symudai bys y cloc lan i bedwar ugain cilomedr yr awr, cant, cant ac ugain, cant a deg ar hugain, cant a deugain. Gwyrodd ei wyneb ymlaen yn nes at y ffenest wynt er mwyn gweld y ffordd yn gliriach dros yr olwyn lywio.

'R oedd arno ofn y gwibiai rhywun allan yn sydyn o un o'r ffyrdd ceirt a arweiniai o'r ffermydd. 'Arafodd e ddim serch hynny. Ond yn ddisymwth gwelodd unwaith eto o flaen ei lygaid, y car hwnnw, un nos Sul, ar ganol y ffordd a'i olwynion yn yr awyr ; dau offeiriad wrth ei ochr, un ohonynt yn penlinio ar ymyl y ffordd, ei stola o gylch ei wddf ; dau blismon ychydig ymhellach yn aros o flaen eu ceir, a'r caeau llwm o amgylch yn dawel a gwag.

Trawodd carreg, a ryddhawyd gan olwyn, yn galed o dan y car a datseinio, gan ei ddychryn.

Fe allai gael ei ddiwedd ar unwaith yn bendifaddau ar y ffordd yna. Parodd yr “yn bendifaddau” yna iddo betruso ac efallai nad oedd arno awydd cael ei ddiwedd o gwblw.

Âi boncyffion coed heibio yn ddi-baid bob ochr i'r ffordd, wedi'u lled-oleuo. Ychydig flynyddoedd yn unig oedd er pan gawsent eu plannu. 'R oedd yno ddau fath, ac yn y dydd chwaraeai dail arian-naidd y coed bedw, os taw bedw oeddynt, yn yr haul gyda'r awel. Chwiliodd yn ei boced am sigarét. 'Chafodd e ddim byd ond tamaid o bapur crychlyd.

Aeth drwy bentre bach o ryw ddeg tŷ ar bob ochr i'r ffordd. 'Welodd e neb. Y pen arall daeth i dŷ tafarn wedi'i oleuno.

'D oedd dim neb ynddo. Eisteddodd Goulven ar fainc wedi'i gorchuddio ag oelcloth a âi ar hyd y wal. Mewn un man 'r oedd rhwyg a deuai'r rhawn allan drwyddo. Y tu ôl i'r bar 'roedd y silffoedd yn llawn poteli hyd at y nenfwd, ac ar astell arall 'r oedd dwy wiwer wedi'u stwffio yn eistedd ar eu penolau o boptu'r cloc.

Daeth dyn, gan bwyll fach drwy ddrws nad oedd yntau wedi'i weld. Y perchen oedd, mae'n siŵr, yn ôl ei osgo. Prynodd Goulven becyn o 'Gauloises' ac yfodd frandi. Teimlai 'r gwynt yn dod mewn drwy'r drws agored ar ei goesau.

"Mae pethau'n dawel yma," meddai.

"Yn yr haf fe fydd 'ma bobol," meddai'r dyn, "yn mynd i weld eglwys Santes Barba yn ymyl. A bydd yma bysgotwyr bryd hynny."

Gosodasai wydryn bach arall ar y cownter ac arllwys llymaid o frandi iddo'i hunan.

"'D ych chi ddim yn bysgotwr? Fe ellwch chi weld brithyllod yn y nant pan fydd y dŵr yn glir. 'Fydd gen i ddim amser i fynd. Maen nhw'n dweud bod yr eogiaid yn dod lan hyd fan hyn hefyd i ddodwy eu hwyau."

Yna dechreuodd y gwiwerod symud un am yn ail ar yr astell uwchben y poteleidi Pernod. Trawent yr awr. Arhosodd Goulven yn syn i edrych arnynt hyd nes iddynt sefyll yn stond â thrawiad bach o'u mewn. Gwelai olwg fach druenus arnynt gan fel 'r oedden nhw wedi colli'u blew.

Pan aeth allan 'r oedd hi wedi nosi'n llwyr. Cyneuodd y goleuadau mawr. 'R oedd hi'n anos gyrru a'r ceir a ddeuai i gwrdd ag e yn ei ddallu. Ond 'chadwodd e ddim yn hir ar y ffordd fawr. Cyn pen fawr o dro troes tua'r caeau ar hyd ffordd wedi'i chulhau gan ganghennau coed helyg ar bob tu. Arafodd y car o flaen clwyd hacarn wen oedd ar agor. Gloywai'r goleuadau y llwybr tywodlyd a rhes o goesgynnu ladiis gwynion crin yr anghofiwyd eu torri, ar hyd wal y tŷ.

Curodd y drws. Agorodd hwnnw wrth ei wthio. 'D oedd e ddim wedi'i folltio.

"Pwy sy 'na?" meddai llais bach rywle ym mhen pella'r tŷ.

"Y fi!" atebodd Goulven.

Gyda'r gair taflwyd golau gwan ar wal ym mhen draw'r dramwyfa. Bob yn dipyn, gan bwyll fach, cynyddai'r golau. Daeth i waelod y grisiau.

Daliai lamp Pigeon bres na oleuai, drwy ei gwydr crwn, ond ei gwallt gwyn a'i llygaid bach gloyw a syllai arno. Cododd y golau uwch ei phen er mwyn ei weld yn well.

"Ie," meddai, "'d yw'r trydan ddim yn gweithio oddi ar ddoe, dyna pam . . . Felly fe ddest ti eto? O, nid cerydd yw e," meddai gan ddod â'r golau'n nes a'i oleuo o hyd.

'R oedd yn fachgen glân, ei wallt yn cyrlio yr ychydig bach lleiaf heb fod yn ormod, crychau bach o gwmpas ei lygaid, wyneb golygus a thyner gyda gwên a oedd braidd yn drist.

"Felly fe ddest ti?" meddai eto.

Fe'i dilynodd i'r stafell nesaf. Rhoes yr hen wraig y lamp fach ar y ford ynghanol y stafell a chymerodd o'r tywyllwch lamp fwy. Tynodd y gwydr a chodi'r pabwyr.

"'D wyt ti ddim yn dweud llawer."

Edrychai arni yn mynd â fflam y fatsen ar hyd y pabwyr.

"Tua faint yw eich oed chi nawr, modryb?" gofynnodd gan eistedd.

"Pedwar ugain, 'machgen annwyl i."

Dododd y gwydr yn ei ôl a gostwng y fflam oedd yn mygu. Nawr fe loywai bren piano yn y cornel. 'R oedd tamaid o frodwaith Iwerddon, a fu o dan y lamp, wedi aros yn hongian wrth un o'r canwyllerni arian. 'R oen nhw'n eistedd ar bob o gadair freichiau frethyn, dull Louis XIV a'u traed wedi'u cerfio. Arhosai Goulven yn dawel gan anwesu cerfiadau dwfn y ddwy fraich â blaenau ei fysedd fflat a sgwâr.

Crynai'r fflam ac weithiau trawai ar ddail y planhigyn rwber tal, bryd arall ar blat piwtar ar y celfi, a'u goleuo.

"Mae helynt y golau 'ma yn ddiflas," meddai'r hen wraig eto, "ac 'wn i ddim o gwbl ai yn y tŷ y mae'r nam neu yn y brif bibell; fe fyddai rhaid i mi . . ."

"Fe ffonia i'r swyddfa 'fory os mynnwch chi," meddai, "ac fe ddôn nhw i weld."

Edrychodd arno.

"Pryd y gadewaist ti gartre?" gofynnodd. "Beth fu rhyngoch chi?"

"O dim byd, dim byd, 'fydd byth . . ."

"Beth sydd o'i le 'te?"

"Popeth a dim byd, wyddoch chi, fe arfer. 'R wy i wedi diflasu, dyna i gyd. Mae pethau 'r un peth bob dydd."

Cododd ei llygaid o'r gwau 'r oedd hi newydd afael ynddo.

"Y ni sydd i roi blas ar bethau, eu diuno, a gweld rhywbeth diddorol, pleserus a newydd ym mhob peth a wnawn. Fe all hyd yn oed bethau bach dinod a chyffredin gael eu lliwio o'r newydd, a'u bywiocáu. Felly hefyd gyda chariad."

"Ie, 'fallai, ond weithiau 'alla' i ddim, 'd oes dim i'w wneud. Weithiau bydd y llythyron, y newyddion, y digwyddiadau yn rhoi calondid i mi unwaith yn rhagor. Ond fe fydd 'na ddiwrnodau pan

fydd popeth yn mynd o chwith, a 'chaiff dyn ddim byd ond diflastod a gofid. Fe fydda' i'n danto. Bydd Lila'n danto. 'Fydd gen i mo'r galon i gydio mewn llyfr hyd yn oed, neu i roi 'chydig gerddoriaeth ymlaen. Yn y diwedd byddwn yn dechrau ffraeo."

Clywsant sŵn bach yn y stafell nesaf.

"Luduenn sy' no," meddai, "mae'n dod i weld pwy sy wedi galw."

Gwchiodd y drws cilagored ychydig a daeth cath i mewn gan bwyll fach â'i chwt ar lan. Aeth i rwbio'i chefn yn erbyn coesau'r llanc a neidiodd ar y gadair freichiau oedd yn wag.

"A Lila?" meddai'r hen wraig.

"Wedi blino."

"Ie, 'r wy'n gweld, Lila wedi blino a thithau wedi blino wrth ei gweld hi wedi blino. Fe ddylset fod wedi dod â hi gyda thi; mae'n siŵr ei bod hithau'n gweld pob dydd yr un fath, yn fwy felly nag a wnei di. Mae arni hithau gymaint o eisiau . . ."

"Mae'n wir. Ond . . . wnes i ddim dweud wrthi 'mod i'n dod yma, a 'fwaswn i ddim wedi gallu siarad â chi, nid er ei mwyn hi y des i, ond er fy mwyn i. Fe fu'n wythnos wael. 'R oedd popeth yn mynd go chwith, y tu faes yn ogystal ag yn tŷ. Y glaw yn dod drwy'r to, ffonio'r tŵr deirgwaith. Fe ddaeth ymhen tridiau ond heb ddod â'i ysgol gydag e, 'allai fe wneud dim. Drannoeth 'r oedd glo'r gwresogydd ar ben. Ffonio. 'Fyddai dim glo o'r math yna am fis. Rhaid chwilio am werthwr arall. Colli tyrn yn erlid. Yn yr hwyr cyrraedd tua thre: methu agor y drws, canu'r gloch, neb yn clywed. Wrth wthio'r drws dyma fe'n agor gan wichian yn ddychrynlyd. Cruglwyth o dywod oedd yn ei rwystro wedi'i gario i'r tŷ gan Brec'hed, 'r oedd ei rhaw blastig yn ymyl. Olion y graean ar y llawr wedyn. Dyma Lila'n dod o glywed y sŵn.

'D oech chi ddim wedi 'nghlywed i'n canu'r gloch,' meddwn i, 'allwn i ddim agor y drws.' Gyda hyn dyma hi'n dechrau brefu!"

"Llefain, Goulven, llefain. A'i diffyg anal?"

"Pwy? O, Brec'hed?"

"Ie, 'd yw hi ddim yn mogi nawr yn y nos?"

"Fe wyddoch iddi fod yn Bourboule y llynedd. Ar gyfer plant y mae'r lle, nawr mae hi'n mynd i'r ysgol yn gyson."

"A dy iechyd di, Goulven?"

"Popeth yn iawn fan 'ny."

"Mae'n groten ifanc erbyn hyn?" gofynnodd.

"Ydy, braidd yn ffiadd."

"O!" meddai, wedi'i dychryn braidd gan y gair, ond fe aeth yn ei blaen ymhen ysbaid. "Mae'n rhyfedd clywed tad yn siarad fel 'na am ei ferch."

"Fel 'na mae."

Buont yn fud am dipyn. Y hi'n codi pwythau. Yntau'n edrych ar y fflam felen a glas a dduai ychydig ar y gwyrdr.

"Beth garet ti ei wneud?"

"Mynd i'r 'Merica."

Chwarddodd yr hen wraig.

"Mae'n wir," meddai Goulven.

"Plant fydd â dyheadau fel'na, plentyn wyt ti. Fe aiff hwn'na heibio."

Aeth y wraig allan. Wedi'i adael ar ei ben ei hun, anwesai Goulven gefn y gath. Cododd Luduenn a chrwmpo'i chefn.

"Goulven!" galwodd yr hen wraig, "dere 'ma i'm helpu i."

'R oedd yn chwilmantan yng ngwaelod y cwpwrdd.

"Cymer y botel sy' ar y ford."

"Ffynnon ddihsbydd yw eich seler chi, modryb," meddai Goulven.

"Dyna f'unig afradlonedd," atebodd, "ynghyd â'm piano. 'R wy'i wrth fy modd yn arllwys *Champagne* i'm ffrindiau."

Rhoes ychydig fisgedi ar blat. 'R oedd y gŵr ifanc wrthi'n mysgu weiren y corcyn.

"Pethau smala yw arferion," meddai, "Mae 'na rai da a rhai gwael. Pan own i yn Carlyle . . . cymer ofal, paid â thynnu'r corcyn fan hyn. Yn y stafell arall y byddwn ni'n gwneud, dyna'r arfer. 'R own i'n dweud wrthyt ti fel y bydden nhw bob amser yn rhoi caws ar ôl yr hufen iâ ar ddiwedd y pryd."

'R oen nhw wedi dychwelyd i'r gegin fyw.

"Mae'r gwydrau y tu ôl i dy gefen yn . . ."

'R oedd Goulven eisoes wedi dod o hyd iddyn nhw. Rhoes ddau wydryn tenau ar y ford. 'D oedden nhw ddim yn gywir yr un fath, a 'roedd un yn lletach na'r llall. Yn y dull undonog y bydd plant yn llafarganu i ddewis pwy fydd yn chwiliwr wrth chwarae lica-loci adroddodd yr hen wraig:

"Bys du, bys cam

Bys Feri Forgan

Astell crogell, prifyn profell

A'r sawl a fo ma's

Gaiff bais goch a mantell, allan, go!"

Chwarddodd y ddau.

"Fe ro' i'r gwydryn cyffredin a'r un mwya', i ti serch hynny. Mae'n well gen i'r gwydryn grisial a 'd oes arna'i ddim eisiau llawer ynddo."

Profasant y *Champagne*. Pesychodd hi ychydig. "Weli di Goulven, mae'n rhaid cael rhyw afradlonedd fel na bo pob dydd yn debyg i'w gilydd. Pan own i'n ifanc 'd oedd gennym ni ddim ceir, na radio na theledu, na dim llawer o lyfrau i'w darllen. Eto fe ddeuem i ben â rhoi blas ar fywyd gyda fawr ddim. 'R ych chi bob amser yn crefu am fwy o hyd."

"Ie, modryb, felly y mae hi. Mae gyda ni offer i wneud ein gwaith i ni ond mae gyda ni fwy i'w wneud. Mae gyda ni'r modd i fynd yn gynt ac eto i gyd 'r fym ni'n blino. Fel 'na mae bywyd. 'D oes gyda ni mo'ch doethineb a'ch areuledd chi, gwaetha'r modd."

"Dyna hi," meddai.

Edrychodd Goulven ar ei wats.

"Mae'n bryd i mi fynd nawr."

"Ie, rhaid iti beidio â bod yn rhy hwyr. Fe ddoda' i'r blodau 'ma i ti. I Lila. Bydd hynny'n ei phlesio hi."

Cymerodd y blodau oedd mewn llestr ar y piano, sychodd eu coesau a'u lapio mewn papur newydd.

Aeth gyda Goulven hyd y drws. Pan droes y car ar y graean, a grafa'i'n swllyd, fe sguddodd y golau goesau hir a gwyn y ladis gwynion. Am eiliad goleuasant amlinell ddigyffro gwraig fach fitw â'i gwallt yn wyn yn gwenu'n dawl fach ar y trothwy.

* * * *

'R oedd y coed a'r llwyni yn llonydd fel y nos. Cyn pen dim 'r oedd ar yr hewl fawr. 'D oedd e ddim yn mynd yn rhy gyflym, ac yntau hefyd wedi ymdawelu. Aeth heibio'r pentref a'r tŷ tafarn. 'R oedd yn hwyr nawr a'r ceir yn anaml ar y ffordd lefn.

Yn sydyn, fflachiodd goleuadau niferus yn y pellter ar y chwith. 'R oedd yr hewl wedi cael ei lledu a meini gwynion o bob maint wedi cael eu gadael blith draphlith ar ymyl y ffordd.

Troes i'r chwith, ymestynnai'r goleuadau o'i flaen nawr. Efallai y byddai'n dal ar lawr, yn ei ddisgwyl, meddyliodd.

Gyrrodd am sawl milltir ond dalai'r goleuadau ar y gorwel o'i flaen; 'd oedden nhw ddim yn ymddangos damaid yn nes hyd yn oed.

Stopiodd Goulven y car yn ymyl llwyn o goed pîn ar ochr y ffordd, gan ofalu peidio â tharo yn erbyn y meini. 'R oedd uwchben y bae lle'r oedai yn aml ar ei ffordd yn ôl o'i waith yn y dydd neu yn y nos.

Canfyddai'r rhostir yn mynd ar i waered hyd at y dŵr, y bont fawr, ac ar y chwith, ddeng milltir ymhellach, y porthladd ar lan y dŵr, ac yna uwchben, y goleuadau niferus. Anadlodd yn ddwfn. Codai aroglau'r gwymon yn gymysg ag aroglau'r sudd i'w ffroenau. Baglodd dros foch coed. Plygodd i'w godi a theimlo'n edifar ar unwaith wrth deimlo'r glud ar ei fysedd. Arhosodd yn flin ac yn lletchwith gan gadw'i fysedd draw oddi wrth ei ddillad. Fe'u cododd at ei drwyn i arogl'r sudd cyn mynd i'w rhwbio yn rhisgl coeden i geisio cael gwared â'r glud.

Yr ochr arall i'r bae, ar ffordd Kerhor, gwibiai goleuadau heibio. Goleuent y coed, a wal, a dirgrynent ar y dŵr cyn diflannu rownd tro Kerangall.

Taniodd sigarét. Parodd yr awel i ddail y pîn siffrwd yn dawl fach uwch ei ben. Llonnodd wrth feddwl y cyrhaeddai adref yn gynt nag yr addawsai.

Pan ddaeth allan o'r neuadd 'd oedd dim bws mwyach i'w gludo adref. 'R oedd ganddo dros filltir i'w cherdded. Buasai'n dda o beth i gyngor y dref drefnu gwasanaeth bysiau tan ganol nos, meddylodd, fel y gallai pobl ddychwelyd adre ar ôl y rhaglenni hwyr.

Gan y teimlai'r noswaith yn hir ar ei ben ei hun yn y tŷ penderfynasai fynd i weld ffilm. Bu'n chwilio yn y papur newydd. Ar y trydydd tudalen, fel arfer, cawsai hyd i'r hysbysebion am y ffilmiau a ddangosid yr wythnos honno ac 'r oedd wedi dal y bws olaf am chwarter wedi wyth i fynd i'r sinema agosaf.

Stori ysbrydion oedd hi, agorai drysau ohonynt eu hunain, neu âi pobl trwyddynt heb eu hagog, a'u dillad yn dal i lynu ar y drysau cyn cwmpo'n swp ar y llawr.

Wrth ddod allan 'r oedd wedi oedi am ychydig yn y cyntedd a thanio sigarét, fel llawer o'r dynion. Câi flas ar sigaret bryd hynny, ar ôl bod yn eistedd am ddwy awr o flaen y sgrin, fel yr arferai gael hefyd ers talwm ar ôl bod yn nofio yn y môr, ac fel y gwnâi llawer o fechgyn hefyd, yn ôl y llyfrau, ar ôl bod yn caru.

Yna sleifodd ymysg y môr o bobl, y mwyafrif ohonynt yn barau, hyd at y drws, ond cyn pen dim lleihaodd nifer y rhai a âi'r un ffordd ag yntau, a chyn bo hir 'r oedd ar ei ben ei hun, bron iawn, yn mynd gyda'r muriau oer. Aeth heibio i gyplau yn swatio yng nghorneli'r drysau. 'R oedden nhw i gyd yn debyg, yn dynn yn ei gilydd, ac ni allai weld eu hwynebau.

'R oedd cerddoriaeth y ffilm yn dal i droi yn ei ben. Trawodd yn erbyn bin sbwriel wedi'i anghofio gan ei berchennog ar ymyl y ffordd. Tra bu'n dilyn y stryd fawr ynghanol y dre bu digon o olau, ond cyn gynted ag y troes i stryd Sant Laorans 'r oedd y goleuadau'n brinnach. 'R oedd y ffordd yn gulach gyda llai a llai o siopau. Ar gornel heol Magenta gwelodd ddyn yn pwnio nerth ei ddyrnau ar ddrws tafarn oedd wedi cau. Cymerai seibiant o bryd i'w gilydd i gwyno a dechreuai guro o'r newydd.

'D oedd Yeun ddim yn hoffi mynd ar ei ben ei hun i'r sinema. Ni wyddai i ble 'r oedd edrych na beth i'w wneud wrth ddisgwyl i'r rhaglen ddechrau. Y peth gorau oedd cael cyfaill gydag ef neu gariad.

Iddo ef 'r oedd amser cariadon wedi mynd heibio, yn ei dyb ef o leiaf, neu 'r oedd wedi colli'r arferiad bellach ar ôl bod yn briod am bymtheng mlynedd.

A pham nad oedd ei wraig wedi dod gydag ef? gofynnodd iddo'i hun yn sydyn. Clywodd y meddwyn eto ym mhen draw'r stryd; 'r oedd wedi dechrau canu emyn Paradwys.

Pan oedd ar ei ffordd yno cyfarfu â chyfaill ar y cei. 'R oedd wedi adnabod ei gorff hir o bell, a'i draed crwca yn llusgo yn nail y palalwyf. 'R oedd yntau yn mynd i'r sinema ar ei ben ei hun.

"Tyr'd gyda fi," 'r oedd Yeun wedi cynnig ar unwaith. "Maen nhw'n dangos ffilm da yma." 'R oedd y llall wedi petruso am ychydig yn ôl ei arfer. O'r diwedd atebodd:

"Na, 'r wy'n mynd i'r Siam."

"O? Beth sy ymlaen yno?"

"'Wn i ddim."

"Man a man i ti ddod gyda fi 'te, maen nhw'n dangos ffilm gwych yma."

"Na 'r wy'n mynd i'r Siam," atebasai'r llall yn ystyfnig. Ac aethai pob un ei ffordd ei hun.

Baglodd ar gledrau dur y tram. 'R oeddyn nhw wedi hen gael eu codi o strydoedd canol y dref, ond 'd oedd dim tram wedi bod ers deng mlynedd bellach ac 'r oedd y lein yn dal yno ynghanol y pafn yn peri i bobl droi ar eu troed.

Cyrhaeddodd y *Bradem*: o boptu'r ffordd safai cutiau pren isel. Llewyrchai golau neon caled y stryd ar astelli rhydd oedd wedi'u camu gan yr haul a'r glaw ac ar y tocon gwastad o ddefnydd wedi'i dario.

Ganllath yn nes ymlaen daeth unwaith eto at y tai cerrig ac iddynt sawl llawr. 'D oedd dim golau yn unrhyw un ohonynt.

Brasgamai Yeun yn ei flaen. Neidiodd yn sydyn, wedi'i ddychryn o glywed sgrech, a safodd yn stond i wrando dan grynu fel dyn wedi'i daro gan dwymyn danbaid.

'R oedd wrth ymyl drws, fe'i cuddiodd ei hun yn y cornel. 'R oedd wedi tawelu, 'r oedd y nos yn llonydd nawr, a'r tu hwnt i'r rhes gutiau ar y rhiw gwelai olau'r llusern yn troi ar ben draw cob y porthladd.

Atseiniodd y gri dreiddgar yr ail waith. Ar ei waethaf teimlodd ias yn rhedeg lawr asgwrn ei gefn. Gwelodd ffenestr yn goleuo ar y trydydd llawer a thawodd y gri ar unwaith. Sgrech babi oedd. Y sgrech honno a fyddai'n gwneud iddo wallgofi bob amser. Ni allai ei goddef, a llawer i dro pan ddechreuai ei fab Iwan weiddi fel yna

ynghanol y nos, fe godai o'i wely a mynd o'r llofft heb air wrth ei wraig, a'i glustog dan ei fraich, er mwyn mynd i gysgu ar sofffa'r gegin fyw.

Edrychodd eilwaith ar y ffenestr wedi'i goleuo ar drydydd llawr yr adeilad sment llwyd. Pan anwyd Iwan 'r oedd ystafell ei wraig ar y trydydd llawr hefyd.

Bu hwnnw'n gyfnod poenus. Bu'n rhaid i'w wraig aros am fis yn yr ysbyty, wedi'i tharo gan glefyd marwol yn ôl y meddygon, a phob dydd âi i'w gweld ar ôl ei waith. Adroddasai wrtho ymhén amser maith mor druenus y'i gwelsai un tro, a hithau yn ei gŵn nos yn edrych ar y stryd o'r tu ôl i'r llenni neilon. 'R oedd hi wedi codi er mwyn gadael i'r gweinyddesau ail-dannu ei gwely. Fe'i gwelsai'n dod yn ei drowsus anniben. Mewn un llaw gafaelai mewn tusw o flodau wedi'u lapio mewn tamaid o bapur newydd, ac 'r oedd y dagrau wedi llifo'n dawel ar ei bochau, i fyny yno y tu ôl i'r ffenestri, a hithau'n fain ac yn welw yn ei gŵn nos. Cofiai Yeun fod ceffylau bach llachar, gwyrdd, coch, melyn, glas, yn troi ar y sgwâr o flaen yr ysbyty.

Ar ôl iddo fynd ychydig gamau clywodd y plentyn yn llefain unwaith eto. Meddyliodd am ei wraig. Tybed ble . . . ?

Byddai hithau'n dechrau llefain pan wylltai ef wrth glywed y plentyn yn lleisio, a phan âi oddi yno a'i glustog dan ei fraich. Nos-weithiau eraill byddai Yeun yn diuno'n sydyn ambell waith ac yn dechrau crynu fel petai twymyn yn gafael ynddo. Byddai hithau'n edrych arno bryd hynny a'i llygaid yn fawr ac yn beichio crio . . .

Pan gyrhaeddodd adre aeth i'r gegin fach. Eisteddodd wrth y bwrdd, gwrthiodd gwpan goffi fudr draw â'i benelin a dechrau llefain, a'i ben ym mhlyg ei fraich ar y bwrdd.

Arhosodd yn llonydd am ysbaid. Yr ochr arall i'r stryd 'r oedd yr hen ferched yn cau gwarchae haearn eu siop. Nid oeddynt yn gynnar. Cododd ei ben, 'r oedd hi'n oerach 'nawr fel y byrhâi'r dyddiau. Dylai wisgo siwmpwr. Aeth i fyny i'r stafell wely. Agorodd y gist ac ymbalfalu ymysg y pentyrrau o ddilladach gwlân, sanau amryliw ei fab Iwan, trowseri bach wedi'u treulio, peisiau ei wraig nad oedd wedi'u gweld amdani ers talwm. Sylwodd ei bod hi wedi mynd â'r lleill gyda hi.

Aeth o un peth i'r llall. Yn yr ystafell ymolchi cododd hosan neilon oddi ar y llawr a'i rhoi'n ofalus ar y gadair. Digwyddodd fwrw ei olwg ar y drych ac arhosodd am eiliad i edrych. 'R oedd ei dei ar gam

i gyd a choler ei grys yn fudr. Aeth i'r ystafell arall. Ar gadair mewn cornel 'r oedd arth wllân wen, bron gymaint â baban, yn eistedd fel plentyn da. Fe'i cymerodd yn ei freichiau a'i mhoelyd. Dyma'r tegan yn gollwng cri arswydus drwy'r tŷ gwag.

Â honno yn ei freichiau yr arferai Iwan fynd i gysgu. Yn nhŷ ei fam-gu yr oedd yn awr, mae'n siŵr, ac yn flin ei fod wedi anghofio'i anifail y bydd yn gofyn amdano pan aiff i gysgu.

Fel arfer bydd yn bwyta gormod o felysion yn nhŷ ei fam-gu a daw allan yn dosau. Tybed a oedden nhw wedi mynd â'r *Bicytrol* gyda nhw? Pan fydd plant yn hoffi bwyd ! Ac yna'r hen bobl yn plygu i bob dymuniad. Arferai ei fam wneud pasteiod afalau. Tymor afalau oedd hi a'r coed yn llwythog ohonynt ; gymaint felly fel y gadewid iddynt bydru ar y ddaear.

Bu ei fam wrthi'n gwneud teisennau eraill hefyd ers talwm yn ystod pum neu ddeng mlynedd, un ar ôl y llall. Teisennau Savoa ar un adeg, pan oedd e'n fychan fel Iwan. 'Fars' bryd arall. Bu 'na gyfnod crempog hefyd. 'R oedd hynny'n ddiweddarach pan oedd yn ddeuddeg ac yn mynd i'r ysgol uwchradd. Er mwyn gwneud teisennau afalau, cytew â sleisennau o afalau yn y canol a'u digoni mewn olew, 'r oedd hi wedi prynu yn Ffair y Top ym Montroulez yn 1937 offer haearn bwrw a roddai siâp i'r cramwyth. 'R oedd tri neu bedwar siâp, rhai sgwâr, rhai crwn, a rhai ar ffurf seren. Cawsant eu defnyddio am flwyddyn, ac yna, un tro, cawsant eu rhoi yn rhes ar ben cwpwrdd y gegin a'u hanghofio ynghyd â phentwr o offer coginio segur eraill.

Aeth Yeun yn ôl i'r stafell ymolchi i chwilio. Ond nid oedd ond hen ddillad yn y gist fach. Syrthiodd rhywbeth a rhowlio o dan y baddon. Aeth ar ei bedwar i'w nôl. 'R oedd llawer o lwch oddi tano. Hen faddon ydoedd, â thraed fel pawennau llew neu deigr. 'R oedd ef ei hun wedi paentio'r tu allan yn las ond mewn rhai mannau gellid gweld yr aliwminiwm.

Tynnodd ei fraich lychlyd oddi tan y baddon ac aros ar ei liniau ar y llawr a stwmpyn o finlliw coch yn ei law. Cododd, unwaith eto dyma'r drych yn adlewyrchu ei wyneb a'i lygaid coch, llydan agored. Nesaodd ac olrhain, â'r lliw coch, amlinell ei wyneb, y talcen, y trwyn, y llygaid a'r gwefusau. Oddi tanodd ysgrifennydd 'Yeun'. Wrth ei ochr tynnodd lun menyw â chnwd o wallt, a blew yr amrannau, rhoddodd fronnau iddi hefyd, dau gylch a smotyn ynghanol pob un.

Ar ôl iddo orffen taflodd y stwmpyn coch i mewn i'r baddon. Rhowlodd dair gwaith neu bedair yn y gwaelod ac aros yn llonydd.

Eisteddodd Yeun ar yr ochr i feddwl. Yn nhŷ ei fam-yng-nghyfraith neu yn nhŷ ei fam yr oeddynt, siŵr o fod.—Diawl!

Gafaelodd â'i ddwy law yn yr ymyl enamel. Bu bron iddo syrthio'n bendramwnwgl i'r baddon.

Beth a fu rhyngddynt? Ni wyddai bellach. Dim byd.

Aeth 'lawr y grisiau. 'R oedd eisiau bwyd arno nawr. Nid oedd ei wraig wedi paratoi ei swper iddo, a pharodd hynny iddo ryfeddu oherwydd gan amlaf pan âi i dŷ ei mam neu i rywle arall byddai'n trefnu popeth yn y fath fodd fel nad oedd ganddo ddim i'w wneud ond cynnau'r fflam o dan y sosban. Ers pryd yr oedd hi wedi mynd?

Ar y bwrdd fe gâi bob amser y blychaid *Nescafé* â'r papur wedi'i dynnu oddi amdano, gan Iwan, tuniau o fwyd, jam a llaeth. Ond y tro 'ma, 'd oedd dim byd.

Cymerodd Yeun y bara oedd yng ngwaelod y seld ac agor drôr y cyllyll. Nid oedd ynddo ond llwyau, ffyr a llwyau coffi. Gadawodd y drôr ar agor a mynd i chwilio yn un y bwrdd. Cafodd drafferth i'w agor, gan fel 'r oedd y pren wedi chwyddo oherwydd y lleithder.

Byddai rhaid iddo gynhesu'r tŷ pe na bai ond er mwyn sychu'r muriau. Aeth hefyd i chwilio yng nghwprdd yr ystafell fwyta. 'D oedd dim un gyllell yno. Nid oedd yn deall hyn. Felly dechreuodd fwyta'r bara a dorrai â'i fysedd fel Crist ar nos Iau Cablyd: fe oedd y Crist. 'R oedd y disgyblion o'i gwmpas. Ar y naill ochr 'r oedd Ioan, yr un a garai, ac ar y llall Jiwidas. Troes i'r ochr chwith er mwyn gweld sut ben oedd gan Jiwidas y clywsai gymaint o sôn amdano. Synnodd o weld nad oedd ef yno. Edrychodd i'r dde, a thamaid o fara rhwng ei fysedd ymhob llaw. 'D oedd neb yno. Syllodd o'i gwmpas, 'd oedd yna ddim un disgybl o gwbl. Dim ond mur disgleirwyn y gegin o'i flaen, hyd braich i ffwrdd, yn oer, a'r dŵr yn diferu arno.

Cymerodd ychydig o gaws i'w fwyta gyda'i fara. Dyma rywbeth gloyw yn dal ei sylw ym mhen pellaf y bwrdd. 'R oedd hi wedi anghofio'i wats, meddyliodd. Faint o'r gloch allai hi fod? Dynodai'r wats ddau o'r gloch. Eisoes. Beth oedd e wedi'i wneud? Dyna gyflym . . . Fe'i cododd at ei glust. Oedd, 'r oedd yn cerdded, ni wnâi lawer o sŵn, ond 'r oedd yn cerdded. Mae watsys merched mor fach. Pam 'r oedd hi wedi'i gadael yn y fan 'na? Fe oedd wedi rhoi'r wats yna iddi ar gyfer . . . Ni wyddai bellach. Ysgydwodd ei ben. Synnai na wyddai bellach.

'R oedd y bara wedi hala syched arno. Gwthiodd y gadair gegin wen draw. Aeth at y sinc ac yfed o'r tap. 'R oedd ychydig o flas metel ar y dŵr. Sychodd ei geg â'i lawes tra'n sefyll o flaen y ffenestr. Efallai mai oherwydd y glusten a roddodd iddi pan gawsai ei focsys gyda'r bychan. Daethai ar ei draws pan oedd e'n adeiladu tai â nhw. Pan fu'r pas arno. Ddoe? Fis yn ôl?

Ysgydwai coed yr ardd eu brigau yn ara' deg, a'r tu ôl iddynt, yr ochr arall i'r stryd, câi gipolwg ar siop yr hen ferched wedi'i goleuo. Nid oedd llawer o siopau yn y cyffiniau heblaw am honno oedd o flaen y tŷ.

Gwelai ddillad gwlân, heb wybod yn iawn beth oeddynt, a blodau mewn cawg. Buont bob amser yn hwyr yn cau eu siop ac yn aml byddai'r dillad gwlân a'r ffrogiau merched bach yn dal i gael eu goleuo yn y ffenestr tan un-ar-ddeg o'r gloch y nos.

Gallai ddarllen llythrennau enw'r siop rhwng y canghennau '*Tricotons pour eux*.' Ymgysgriad y merched. Pa bleser a allent ei gael mewn bywyd? 'R oeddynt wedi rhoi'r gwarchae hacarn yn ei le ond wedi anghofio diffodd y golau.

Aeth Yeun i ben y gadair er mwyn cyrraedd silff uchaf cwpwrdd y gegin. Tynnodd oddi yno'r pecynnau siwgwr yn eu bocsys brown a'r bocsys *Phoscao* y rhoddai ei wraig bob math o bethau ynddynt: reis, siwgr mân, coffi. O'r tu ôl tynnodd gasgliad o focsys mawr i ddechrau, yna rhai bach, a phump neu chwe phentwr o rai llai fyth. 'R oedd llwythi ohonynt ar y bwrdd a oedd wedi'i orchuddio eisoes gan y gwpan gydag ychydig o goffi du yn y gwaelod, llwy arian, blychaid o gaws ar agor a briwsion bara. Maen nhw'n dweud bod rhai pobl yn casglu rhai llawn, meddyliodd wrth iddo'u trefnu ar y bwrdd. O leiaf byddai ef yn defnyddio'r matsys yn gyntaf.

Gwnaeth res i ddechrau â'r rhai mawr carbord. 'R oedd cymeriadau gêm gardiau arnynt. Yna trefnodd rai bychain bychain, o garbord hefyd, yn dod o'r Sbaen. Bu'r matsys cŵyr ynddynt yn ddiwerth oherwydd eu bod yn plygu wrth gael eu taro ar ochr y blwch. Rhai bach pren o Ffrainc. Wrth eu hochr gosododd y rhai a ddangosai chwedlau La Fontaine wedi'u lliwio'n llachar, ac yna'r gwisgoedd: 'r oedd un yn darlunio Llydawr mewn trowsus llac, y math nas gwelir ar unrhyw un bellach ond efallai ar y canwr Milbeo. Hefyd 'r oedd dau flwch o Japan y daethai rhyw forwr â nhw. Arnynt 'r oedd y ddwy long Ffrengig, y *Jeanne d'Arc* a'r *Victor Schoelcher*, cawsent eu gwneud yn arbennig gan Japancaid pan aethai'r llongau Ffrengig yno.

Wedi blino edrych ar ei flychau fe'u gadawodd lle 'r oeddynt a mynd i'r ystafell gerllaw. Yno 'r oedd y soffâ, ei ddesg a dwy neu dair cadair freichiau. 'R oedd y radio, ynghyd â gramaffon, ar silff mewn math o gilfach wedi'i gwneud yn y wal. O'i chwmpas 'r oedd ei wraig wedi hongian darn o ddefnydd wedi'i bletio, un pinc fel gorchudd y soffâ, er mwyn cuddio'r plastr rhydd.

Agorodd glawr y *pick-up*. 'R oedd y recordiau wedi'u trefnu oddi tano ar astell, y tu ôl i'r gadair-freichiau ledr. Penliniodd er mwyn chwilio am record. Nid oedd yn hawdd gan fod y lle'n rhy gyfyng. Bu'n rhaid iddo roi'r recordiau ar y llawr. Daeth o hyd iddi a'i thynnu o'i gorchudd. O gwddyn bach plastig tynnodd ddarn o ddefnydd glas yn arbennig ar gyfer tynnu'r llwch. Aeth â'r croen meddal yn ofalus dros wyneb y record.

'R oedd wedi dewis record hirfaith. Dododd y nodwydd yn y rhigol a chymryd sigarét cyn eistedd. Cychwynnodd dan furmur ond yn union wedyn bwriodd iddi â grym yr holl grythau gyda'i gilydd. Dychwelodd yr un alaw ingol lawer gwaith fel rhywun yn chwilio am ei ffordd heb lwyddo ac yn dechrau chwilio eto â mwy o ymdrech.

Cymerodd Yeun orchudd y record a dechrau darllen yr hyn a oedd wedi'i ysgrifennu ar ei gefn wrth wrando.

"'R oedd y breuddwyd o hapusrwydd, yr oedd dyfodiad yr "anwylyd anfeidrol" wedi peri i egino ynddo yn 1812, wedi'i chwalu am byth. Oherwydd ei dristwch aeth ei awen, a oedd wedi gwanhau ers rhai blynyddoedd eisoes, yn hesb. Gwaethygai ei iechyd, credai ei fod yn cael ei dagu gan glefyd marwol, ac 'r oedd hyd yn oed wedi penderfynu gwneud diwedd ag e'i hun."

Brawychwyd Yeun braidd gan ffrwydrad annisgwyl y scherzo, y drymiau'n rhuo fel taran, ac ar eu hôl, y crythau, yn urddasol ac yn nerthol, ac ar ôl y crythau, y corn pruddglwyfus.

Arhosodd yn llonydd am ysbaid fach i wrando, ei ben yn pwyso ar gefn y gadair freichiau a'i draed ar y bwrdd bach crwn. Ail ddechreuodd ddarllen :

"Meddyliodd fodd bynnag am gyfansoddi symffoni. Parhaodd i feddwl hyd nes iddo lwyddo trwy rym ewyllys ryfeddol i wneud braslun o'r rhan gyntaf. 'R oedd wedi'i achub. Parhaodd y cyfnod hwnnw o weithgarwch am flwyddyn, fe gyfansoddwyd y rhan fwyaf o'r gerddoriaeth yn ystod yr haf yn y flwyddyn 1823 yn Hetzendorff yng nghyffiniau Wien. Ysigwyd ei nerth yn llwyr gan yr holl waith yna. Ni feddyliai'r cyfeillion a ddeuai i'w weld ei fod wedi llwyddo i

sylweddoli breuddwyd deng mlynedd ar hugain o'i fywyd. I'r gwrthwyneb fe'u trewid gan yr olwg wael oedd arno, olion y poen a gwaith anferth yr haf wedi'u rhychu'n ddwfn ar ei wyneb."

'R oedd y record yn dal i droi. Weithiau distewai'r gerddoriaeth ac weithiau fe ffrwydrai fel tonnau cynddeiriog. Pan ddaeth un ochr i ben taniodd sigarét arall cyn troi'r record.

Cyn bo hir dechreuodd nodau isel y fiola seinio cân Schiller.

Pan ddechreuodd y gân "O Freunde diese Toene," cododd Yeun o'i gadair-freichiau ac agor y ddwy ffenestr led y pen ar y nos. 'R oedd hi'n noson braf a thawel, o'r braidd yr ysgydawai canghennau uchaf y poplys. Troes y gerddoriaeth i fyny mor uchel ag yr oedd modd, a gwrando a'i ben yn pwyso ar gefn y gadair. Codai mwg ei sigarét yn droellog a chwalu bob tro yn yr un lle gyda'r awel o wynt ysgafn a chwythai'n dawel drwy'r ffenestr agosaf.

Rhedai'r gerddoriaeth i ffwrdd trwy'r ffenestr fel dilyw. 'R oedd e wedi'i fodd mewn môr o gân ac o gerddoriaeth bob yn ail. Ffrwydrai'r muriau, ac yntau'n nofio, yn cael ei gludo gan y môr hwnnw, heb atgof, heb fywyd, heb boen, mewn Nirvana, yn llawen, ym Mharadwys y Celtiaid.

* * * *

'R oedd blaenau'r coed yn dal i grynu'n dawel fach yn erbyn wybren wridog y wawr pan glywodd y cymdogion gar yn sefyll o flaen y tŷ.

'R oedd y drws ar glo a daeth rhywun i mewn trwy'r ffenestr i'w agor.

'R oedd Yeun yn cysgu'n sownd ar y soffâ binc. Yn ei freichiau gwasgai arth wlân wen gymaint â baban ac 'r oedd ei wyneb yn hapus ac yn dawel fel wyneb plentyn yn ei gwsg.

'R oedd y gerddoriaeth wedi tewi ond daliai'r record i droi o hyd, gan wneud sŵn bach rheolaidd gyda phob cylchdro.

Dyma un o'r pedwar dyn a ddaethai i'r tŷ distaw yn aros, ac yntau'n edrych yn ddigri ac allan o le yn ei helmet ddur ddisglair, i syllu ar y record yn troi'n dawel gyda'i chlec reolaidd, ac yna ar y dyn ynghwsg a'r anifail gwichlyd yn ei freichiau, ac ysgydwodd ei ben.

Tybiodd fod rhywbeth wedi torri yn y peiriant oherwydd gan amlaf pan fydd y gerddoriaeth wedi gorffen fe ddaw'r fraich yn ôl i'w lle ohoni'i hun.

